NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Llid yr ymennydd (bacterol) ac afiechyd meningococol: adnabod, diagnosio a rheoli

19 Mawrth 2024

## Llid yr ymennydd bacterol ac afiechyd meningococol: y gofal y dylech ei ddisgwyl

Haint o'r pilenni o gwmpas yr ymennydd a llinyn y cefn yw llid yr ymennydd. Gall feirws neu facteria ei achosi, ond mae'r canllaw hwn ond yn cwmpasu llid yr ymennydd bacterol.

Afiechyd meningococol yw pan fydd bacteria meningococol (un o brif achosion llid yr ymennydd) yn lledaenu i'r gwaed.

Mae llid yr ymennydd bacterol ac afiechyd meningococol yn brin, ond gallant fod yn fygythiad i fywyd, yn enwedig os na chânt eu trin yn gyflym. Gallant hefyd achosi problemau hirdymor, gan gynnwys anableddau fel niwed i'r ymennydd.

Mae llid yr ymennydd ac afiechyd meningococol yn argyfyngau meddygol ac mae angen eu trin â gwrthfiotigau yn yr ysbyty.

Rydym am i'r canllaw hwn wneud gwahaniaeth i bobl sydd â llid yr ymennydd bacterol neu afiechyd meningococol drwy sicrhau'r canlynol:

- bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gwybod pa symptomau ac arwyddion i chwilio amdanynt
- os bydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn amau llid yr ymennydd bacterol neu afiechyd meningococol, bydd yn anfon yr unigolyn i'r ysbyty fel achos brys (er enghraifft, mewn ambiwlans)
- bod pobl yn cael y profion iawn yn yr ysbyty – fel rheol, bydd y rhain yn cael eu gwneud cyn rhoi gwrthfiotigau (ond gall fod angen iddynt ddechrau cymryd gwrthfiotigau cyn bod canlyniadau'r profion ar gael)
- bod pobl yn cael gwrthfiotigau ymhen awr o gyrraedd yr ysbyty
- ar ôl hynny, bydd y bobl y cael y gofal iawn i helpu gyda chymhlethdodau - gallai hyn gynnwys cymorth seicolegol, prawf clyw ac asesiad am gymhorthion clyw,

ffisiotherapi i helpu gyda phroblemau symudedd, a gofal am niwed i'r croen, y breichiau a'r coesau

- bod pobl yn cael y cymorth hirdymor sydd ei angen arnynt i wella – bydd hyn yn cynnwys apwyntiad dilynol 4 i 6 wythnos ar ôl gadael yr ysbyty
- bod babanod, plant a phobl ifanc yn cael asesiadau pellach i wirio am broblemau gyda'u dysgu a'u datblygiad (er enghraifft, problemau yn yr ysgol).

### Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylent deilwra eich gofal i'ch profiadau, anghenion ac amgylchiadau penodol.

Os oes angen mwy o gymorth arnoch i ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Mae gwefan y GIG yn cynnwys mwy o wybodaeth am lid yr ymennydd.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chymorth i chi.

- Sefydliad yr Ymennydd a'r Asgwrn Cefn, 0808 808 1000
- Meningitis Now, 0808 80 10 388
- Sefydliad Ymchwil Llid yr Ymennydd, 080 8800 3344

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch tîm Healthwatch lleol.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl y mae llid yr ymennydd bacterol ac afiechyd meningococol wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

ISBN: 978-1-4731-9433-5